

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR CYLLID
7.30pm 16 MEHEFIN 2022

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Tom Defis, Andy King, Miriam Moules, Emlyn Schiavone a Wyn Thomas

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
 Mrs Emma Smith - Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid

56. Ethol Cadeirydd 2022/23

Cynigiodd y Cyng. Wyn Thomas bod y Cyng. Tom Defis yn parhau yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor, eiliwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone a **PHENDERFYNWYD** y mater.

57. Ethol Is-gadeirydd 2022/23

Ar gynnig y Cyng. Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone, **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyng. Gareth John yn parhau yn ei rôl fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

58. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth John, Ioan Matthews a Jeff Thomas.

59. Datgan Buddiannau

Dim.

60. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn i Dalu'r Rhestr Cyfrifon ar gyfer June 2022.

- (i) Cyngor Tref. Ystyriodd yr aelodau'r taliadau a derbyniwyd y rhestr. Cynigiodd y Cynghorydd Wyn Thomas y dylai'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£92,814.90** gael ei chymeradwyo a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Emlyn Schiavone y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo pob taliad.
- (ii) Y Siop De. Ystyriodd yr aelodau'r taliadau a derbyniwyd y rhestr. Cynigiodd y Cynghorydd Andy King y dylai'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£1398.73** gael ei chymeradwyo a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Miriam Moules y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo pob taliad.

61. Adroddiad Ariannol

Darparwyd adroddiad cyllid ar gyfer Ebrill 2021 i 31 Mai 2022

Balansau banc y Cyngor fel ar yr 31 Mai 2022 fel y ganlyn:

	£
HSBC Cyfrif Cyfredol	40,323.48
HSBC Cyfrif Wrth Gefn	558,653.23
Cyfanswm yn y banc	598,976.71

Balansau Cyfrifon Eraill fel ar 31 Mai 2022:

Lwfans y Maer	-	£3,532.04
Ras y Maer	-	£7,392.13
Siop De Parc Caerfyrddin	-	£18,675.32

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill hyd at 31 Mai 2022 oedd £65,705.81
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod, gan gynnwys Siop De'r Parc, oedd £24,993.86. Felly, y gwariant net cyffredinol yw £40,711.95.
- Gofyniad y Gyllideb / Praesept Net ar gyfer 2021/22 yw £788,855.58, ac mae £262,951.86 wedi'i dderbyn. Bydd yr aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor wedi cwblhau'r flwyddyn o fewn y gyllideb ar 31 Mai 2022.

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

62. Rhestr o'r Incwm Misol

CYMERADWYWYD y rhestr.

63. Taliadau Rheolaidd

Yn unol â rheoliad ariannol 5.6, cyflwynwyd i'r pwyllgor restr o'r rhai sy'n talu'n rheolaidd a'r costau nodweddiadol fesul mis neu chwarter ar gyfer y cyflenwyr hynny. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i hwyluso taliadau i'r cyflenwyr hyn cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, os oedd angen. **CYMERADWYODD** yr Aelodau y rhestr.

Roedd rhestr o daliadau debyd uniongyrchol hefyd wedi'i chynnwys er gwybodaeth i'r aelodau a **NODWYD** y rhestr honno.

64. Cerdyn debyd rhagdaledig ar gyfer y Siop De.

Yn unol â rheoliad ariannol 6.19. roedd angen caniatâd i ddarparu cerdyn debyd rhagdaledig y gellid ei ddefnyddio yn yr un modd ag arian mân ar gyfer y Siop De. Byddai uchafswm balans o £500 yn adlewyrchu'r trefniadau presennol sydd

yn eu lle ar gyfer arian mân a byddai ailgyflenwi arian yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid i'w gymeradwyo. Trafododd yr Aelodau y trefniant arfaethedig a **CYMERADWYODD** darparu'r cerdyn.

Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Mae'r pŵer cyffredinol yn galluogi cynghorau cymuned cymwys i weithredu er lles gorau eu cymunedau, cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau canlyniadau gwerth am arian. Bydd cynghorau cymuned cymwys hefyd yn gallu codi arian drwy godi tâl am wasanaethau dewisol ac i fasnachu at ddibenion masnachol ac yn eu swyddogaethau arferol.

Er mwyn dod yn gyngor cymuned cymwys yn ffurfiol, rhaid i gyngor fodloni'r amodau a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 "y Ddeddf" a phasio penderfyniad mewn unrhyw gyfarfod yn cadarnhau ei fod yn bodloni'r amodau.

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth gan y Clerc ynglŷn â manteision posibl datgan bod y Cyngor yn gymwys i ddefnyddio'r pŵer, a'r meini prawf y mae'n rhaid i'r Cyngor eu bodloni i fod yn gymwys. Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd y Cyng. Andy King, eiliwyd gan y Cyng. Miriam Moules a chyda chytundeb y pwyllgor, **ARGYMHELLWYD** y dylai'r Cyngor ddatgan ei hun yn Gyngor cymwys o dan y Ddeddf.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 y.h.